Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bod Alaw

**Heol Abergele**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 7ST**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bod Alaw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bod Alaw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 313 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 225 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 5.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 46.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r ethos hynod ofalgar, cyfeillgar a chefnogol sydd yn nodwedd amlwg o ddarpariaeth Ysgol Bod Alaw yn treiddio trwy bob agwedd o’i gwaith. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn ymdrin â’i gilydd ac oedolion yn barchus a chwrtais. Mae diwylliant diogelu’r ysgol yn gryf ac mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel wrth eu gwaith a’u chwarae. Maent yn hynod falch o’u hysgol ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau.

O ganlyniad i gynllunio pwrpasol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, rhifedd a digidol. Maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer datblygu medrau corfforol disgyblion yn gryfder amlwg. Mae disgyblion yn mwynhau'r ystod eang o brofiadau a gânt ac yn gwneud cynnydd cryf yn yr agwedd hon.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm ysgogol sydd yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn adlewyrchu’r cyd-destun lleol yn effeithiol. Mae staff yn sefydlu perthynas waith gefnogol ac annwyl gyda’r disgyblion ac mae’r ardaloedd dysgu yn fannau cynhyrchiol a llawn bwrlwm. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu pwrpasol sydd yn hybu cymhelliant a chynnydd disgyblion. Er hyn, nid yw gweithgareddau bob tro’n herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol sy’n dyheu am y profiadau dysgu a’r lles gorau posibl ar gyfer bob disgybl. Cefnogir y pennaeth gan dîm gweithgar a hynod gydwybodol o staff sydd yn gosod pwyslais ar sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn awyddus i ddysgu. Mae’r llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth gadarn i’r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o’u dyletswyddau a’u cyfrifoldebau. Maent yn ymroddgar ac yn eiriolwyr diflino dros yr ysgol wrth ddarparu cefnogaeth i arweinwyr a staff ynghyd â sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio’i hadnoddau’n briodol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau llafar Cymraeg mwyafrif y disgyblion islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu cam datblygiad a'u hoedran. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r  rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n  fuan iawn i fod yn siaradwyr Cymraeg medrus a hyderus.

Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau staff, yn dilyn cyfarwyddiadau'n  bwrpasol ac yn cydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion. Mae eu medrau llafar yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith ac maent yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu geirfa yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith ddisgrifiadol yn fwriadus wrth berfformio drama fer gan chwarae rôl cymeriadau Rala Rwdins. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio patrymau gramadegol cywir wrth eu gwaith ac mewn cyd-destunau llai ffurfiol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o eirfa a therminoleg yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa bwrpasol fel 'gorchuddio' wrth gydweithio a dod i benderfyniadau ynghylch y deunyddiau sydd eu hangen arnynt i adeiladu lloches yn yr ardal goedwig.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dangos adnabyddiaeth dda o lythrennau a'u seiniau ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 4, mae disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a darllen geiriau llai cyfarwydd yn llwyddiannus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trin a thrafod prif nodweddion llyfrau a chymeriadau ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r cynnwys. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i ganfod ystyr. Er enghraifft, maent yn defnyddio tystiolaeth o'r testun gyda rhuglder er mwyn rhagfynegi beth fydd yn digwydd nesaf.

Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod dysgu sylfaen yn datblygu eu medrau modur mân yn gadarn sydd yn eu cefnogi'n llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn datblygu ac ystwytho cyhyrau pwysig trwy bwytho a phlethu deunyddiau i greu porthwyr adar. Mae hyn yn eu cefnogi'n llwyddiannus wrth fynd ati i ffurfio llythrennau gyda chywirdeb cynyddol. Mae medrau ysgrifennu'r  rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn gwneud cynnydd cryf yn natblygiad eu sillafu ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o reolau gramadegol a chystrawen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn gwneud dewisiadau dychmygus o ansoddeiriau ac idiomau i gyfoethogi eu gwaith wrth ysgrifennu pennod ychwanegol i lyfr *Y Twits* gan Roald Dahl.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn cymhwyso eu medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau sydd yn adio at 10 yn hyderus. Maent yn adeiladu'n gyson ar y

medrau hyn ac, erbyn Blwyddyn 4 a 5, mae disgyblion yn arbrofi â defnyddio ystod o ddulliau ar gyfer lluosi. Mae’r disgyblion hynaf yn ymdrin â data yn ddeallus. Er enghraifft, maent yn ailadrodd mesuriadau ac yn cyfrifo’r cymedr er mwyn gwella dibynadwyedd data eu hymholiadau gwyddonol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu a chymhwyso eu medrau digidol yn briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio delweddau a sain yn fedrus wrth greu animeiddiad o gymeriad stori gyfarwydd. Mae medrau digidol y disgyblion hynaf yn datblygu’n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, maent yn defnyddio ystod o raglenni yn hyderus, er enghraifft wrth fewnbynnu gwybodaeth mewn cronfa ddata am uchder mynyddoedd Cymru.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Maent yn defnyddio ystod dda o adnoddau er mwyn efelychu dulliau celf artistiaid enwog o Gymru, ac maent yn mwynhau perfformio mewn cyngherddau ac eisteddfodau. O ganlyniad, caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion wrth gyflwyno eu hunain yn greadigol, gan gynnwys eu gallu i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn effeithiol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud dewis doeth o ystod o ddulliau pasio pêl ac yn defnyddio gofod yn effeithiol wrth ymosod ac amddiffyn yn ystod eu sesiynau sgiliau pêl. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, mae disgyblion yn symud yn fwy grymus ac egnïol ac yn pasio’n llyfn a gyda chywirdeb da. Ar y cyfan, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos agweddau cadarnhaol at weithgareddau corfforol ac yn parchu rheolau’r gweithgareddau.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn mwynhau mynychu’r ysgol ac yn teimlo’n hapus o fewn ei naws gynhwysol. Maent yn teimlo’n gwbl ddiogel yno ac yn gwybod bod staff ar gael i wrando ar unrhyw ofidion sydd ganddynt a rhoi cyngor iddynt bob tro. Mae’r disgyblion a’u rhieni yn gwerthfawrogi’r gofal mae’r staff yn ei ddarparu ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda ac maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae bron bob un yn gwrtais ac ystyriol o'i gilydd ac maent yn dangos balchder amlwg wrth siarad am eu hysgol. Mae hyn yn nodwedd gref o’r ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at eu dysgu ac yn datblygu’n ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig. Maent yn gwrando’n astud ar gyflwyniadau ac yn gweithio’n gyson dda fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Maent yn cydweithio’n gytûn ac, ar y cyfan, yn ymroddgar wrth ymgymryd â’u tasgau. Er hyn, nid yw’r her y gweithgareddau dysgu bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Trwy ddefnydd effeithiol o’r waliau cynllunio a’r trafodaethau ar ddechrau thema newydd, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau ac yn ychwanegu

cwestiynau ynglŷn â'r hyn maent yn dymuno ei ddysgu. O ganlyniad, maent yn teimlo bod oedolion yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu hystyried wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwilfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Ar y cyfan, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan staff. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o'r angen i ddarllen eu gwaith yn ofalus er mwyn adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda a sut gallent fynd ati i wella eu gwaith. Maent yn deall bod hyn yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae pob disgybl Blwyddyn 6 yn aelod o bwyllgorau gwahanol ble cânt roi sylwadau, syniadau a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn frwdfrydig ac o ddifri. Er enghraifft, mae disgyblion y Cyngor Chwaraeon yn weithgar wrth drefnu gweithgareddau a gemau buarth yn ystod amseroedd egwyl tra bod disgyblion y Cyngor Eco yn angerddol wrth sicrhau bod pawb o fewn cymuned yr ysgol yn ailgylchu gwastraff.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang, moesegol a gwybodus. Maent yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas ac maent yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus wrth godi arian i elusennau amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach a heini. Trwy eu gwaith themâu, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r effaith mae diet cytbwys ac ymarfer corff yn ei chael ar eu hiechyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys sesiynau ysgol y goedwig ac addysg gorfforol. Mae'r disgyblion hŷn yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o dwrnameintiau a chystadlaethau, gan gynnwys pêl-droed a rygbi.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff ar draws yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu cwricwlwm diddorol ac ysgogol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Maent wedi sefydlu gweledigaeth glir lle mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ystyried barnau rhieni a disgyblion ynghyd â chyd-destun yr ardal leol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r amgylchedd ddysgu atyniadol yn annog cymunedau dysgu cynhyrchiol a phwrpasol. Mae perthynas waith effeithiol rhwng y staff a'r disgyblion ac maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus. Maent yn trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch ac yn gosod eu hapusrwydd a'u lles yn flaenoriaethau amlwg. Mae staff yn sicrhau mynediad rheolaidd i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardaloedd allanol deniadol sy'n cymell disgyblion ac yn sbarduno'r dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau chwarae'n rhydd mewn amgylchedd sy'n llawn dewisiadau a gweithgareddau cyffrous.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau dysgu trwy gyfrwng themâu ysgol gyfan symbylus a difyr. Mae'r profiadau yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a diddordebau disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud trwy'r ysgol mewn cyd-destunau amrywiol. Mae'r themâu wedi eu cynllunio'n fedrus er mwyn sicrhau bod sbardun cyffrous i'r dysgu a mewnbwn gan gymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae rhieni'n  mynychu'r ysgol er mwyn ymuno â dathliadau'r ysgol ar themâu'r 'Chwedegau'. Mae'r profiadau hyn yn annog disgyblion I gwestiynu, arbrofi a gwneud dewisiadau annibynnol yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Er enghraifft, mae trefniadau cadarn ar gyfer cefnogi datblygiad darllen sy'n hybu ethos o gariad tuag at lyfrau ymysg disgyblion ac, o ganlyniad, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen.

Mae defnydd pwrpasol o ymwelwyr ac ymweliadau yn cyfoethogi profiadau dysgu bob disgybl ymhellach ac yn tanio eu diddordeb a'u chwilfrydedd. Er enghraifft, er mwyn helpu Bendigeidfran i groesi Môr Iwerddon, mae disgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn cydweithio'n bwrpasol ag arbenigwr peirianneg lleol. Maent yn trafod beth yw'r siâp, dyluniad a'r deunyddiau mwyaf addas ar gyfer adeiladu pont i helpu Bendigeidfran ar ei daith. Maent yn datblygu medrau cydweithio, meddwl yn feirniadol ac ymholi gwerthfawr wrth ddod i gasgliad ynghylch eu hoff ddyluniad.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n adalw dysgu blaenorol y disgyblion yn effeithiol, yn cadarnhau eu dealltwriaeth ac yn eu hannog i ddatblygu eu medrau meddwl. Mae amcanion clir i'r dysgu ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo. Mae athrawon yn cynnig adborth pwrpasol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o beth  maent wedi ei wneud yn dda a'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau bod tasgau a phrofiadau yn herio'r disgyblion i gyflawni cystal ag y gallent, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae staff yn fodelau ieithyddol cadarn. Mae cymorthyddion dysgu yn cydweithio'n effeithiol ag athrawon ac yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu medrau disgyblion. Er enghraifft, maent yn cefnogi medrau cymdeithasol, emosiynol a llythrennedd disgyblion ar draws y dosbarthiadau yn gelfydd. Mae arweinwyr a staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol er mwyn cynnal trafodaethau proffesiynol ymysg staff. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol gan athrawon er mwyn ymateb i anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion ac wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn fwriadus. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gyflawniad disgyblion ynghyd â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu ymhellach.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn hynod lwyddiannus. Mae perthynas waith gynhaliol a chefnogol rhwng staff a disgyblion ac mae staff yn annog disgyblion i wneud eu gorau. Golyga hyn fod bron bob disgybl yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r staff yn ymdrin ag unrhyw fater sy'n codi mewn modd cefnogol a chaiff pryderon eu datrys yn gyflym. O ganlyniad i'r berthynas gynhaliol rhwng y disgyblion a'r staff, mae bron bob disgybl yn hapus i ddod i'r ysgol, yn cydweithio'n dda o fewn gwersi ac yn cydchwarae'n briodol yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) drefniadau cadarn ar gyfer adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae hi'n sicrhau bod staff yn darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol yn dda. Mae'r CADY yn darparu cyfleoedd i rieni, staff a disgyblion gyfrannu'n bwrpasol at gynlluniau datblygu unigol disgyblion. Mae proffiliau un tudalen pwrpasol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion unigol disgyblion a'r hyn sydd ei angen arnynt i ddatblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn gwerthuso effaith rhaglenni cefnogi ar eu cynnydd yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd yn cael cefnogaeth ychwanegol yn gwneud cynnydd da dros amser.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n ofalus ar gefnogi lles disgyblion gan gynnwys eu hanghenion emosiynol a'u hiechyd meddwl. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad effeithiol at ystod o raglenni pwrpasol sy'n eu helpu i ymdrin â'u teimladau a'u hemosiynau. Techneg effeithiol sy'n cael ei defnyddio gan y disgyblion er mwyn rhannu eu teimladau a phryderon ar gychwyn yr wythnos yw 'Llun Lles' a'r defnydd dyddiol o'r blychau lles o fewn y dosbarthiadau. Drwy hyn, mae'r staff yn llwyddo i adnabod ac ymateb yn gyflym a sensitif i unrhyw bryderon sydd gan ddisgyblion. Mae staff yn cydweithio'n hynod effeithiol ag asiantaethau allanol, fel y Tîm Cefnogi Lles ac asiantaethau amrywiol yn ôl yr angen, er mwyn cefnogi disgyblion sy'n wynebu heriau cymdeithasol ac ymddygiadol.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hynaf ymgymryd â rolau arwain yn yr ysgol ac i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r Cyngor Lles yn cynnal arolwg o ddisgyblion yr ysgol ac yn ymateb i'r canlyniadau drwy gynnal nifer o weithgareddau hwyliog yn ystod wythnos lles yr ysgol. Mae disgyblion sy'n rhan o'r criw digidol yn weithgar wrth hyfforddi disgyblion eraill ynglŷn â sut i ddefnyddio meddalwedd newydd i'w cefnogi i gyflwyno eu gwaith.

Trwy ystod dda o gyfleoedd pwrpasol, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O fewn y gwasanaethau ysgol gyfan, mae'r staff a disgyblion yn trafod gwerthoedd pwysig yr ysgol yn gyson, a sut i fod yn ddinasyddion da o fewn y gymdeithas. Maent yn trafod hawliau plant a'r angen i drin pawb â pharch. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o sut i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Darperir nifer o ymweliadau cyfoethog i'r disgyblion sy'n hybu eu diddordeb am ddiwylliant Cymru a'r gymuned leol yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Yma o Hyd', mae athrawon yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â mannau o ddiddordeb, gan gynnwys Clwb Rygbi Gogledd Cymru. Fel rhan o'r ymweliad, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i holi'r chwaraewyr. Mae'r ymweliadau yn codi dyheadau disgyblion ac yn eu cefnogi i ddatblygu gwerthoedd pwysig fel dyfalbarhad a gwydnwch.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol mewn ystod o weithgareddau ysgogol a difyr. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn amryw weithgareddau cadw'n heini gan gynnwys y sesiynau ffitrwydd wythnosol. Maent yn cael budd o'r gweithgareddau yn yr ardal goedwig lle cânt gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yng nghanol byd natur.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o glybiau a gweithgareddau atyniadol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm a hybu medrau cymdeithasol y disgyblion, er enghraifft clwb aml-chwaraeon, côr a phêl-rwyd. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion hŷn yr ysgol fynd ar dripiau preswyl i Lan Llyn, Caerdydd a Pentrellyncymer sy'n ehangu eu profiadau yn werthfawr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn treiddio trwy'r ysgol. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol sy'n codi yn gadarn ac effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hybu presenoldeb disgyblion ac mae'n cydweithio'n agos â theuluoedd pan fydd pryder ynghylch presenoldeb eu plant. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn ymateb i'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a chydwybodol. Mae ganddo weledigaeth glir sydd yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu ysgogol a diddorol ynghyd â sicrhau'r lles gorau posibl ar gyfer bob disgybl. Mae'r pennaeth wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda rhieni, staff, disgyblion a'r gymuned ehangach ac, o ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o fod yn rhan o gymuned ddysgu glòs ble mae barn a chyfraniad pawb yn bwysig. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarn o ddiogelu yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn eu gwaith a'u chwarae o fewn amgylchedd cefnogol a gofalgar.

Cefnogir y pennaeth gan ddirprwy benaethiaid egnïol a gweithgar ynghyd â thîm o staff ymroddgar a brwdfrydig. Maent yn gweithio'n gydwybodol er mwyn darparu profiadau cyfoethog sy'n tanio dychymyg ac ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae cyswllt rhesymegol rhwng eu targedau datblygu a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cefnogi gan ystod ddefnyddiol o weithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n cael eu darparu ar gyfer staff. Er enghraifft, mae staff addysgu yn cydweithio'n fedrus o fewn yr ysgol er mwyn datblygu cwricwlwm cytbwys a chyfoes sy'n gyffrous ac yn hybu cynnydd disgyblion yn briodol. Maent yn adeiladu ar y gwaith hwn yn fwriadus trwy gydweithio ag ysgolion lleol er mwyn rhannu arferion gorau a gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn hynod gefnogol o'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'i gwaith a'i chymuned. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau ac yn eiriolwyr cadarn a diffuant dros y staff a'r disgyblion. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf addas o adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol er mwyn darparu rhaglenni sy'n cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd a lles emosiynol disgyblion yn bwrpasol. Mae llywodraethwyr yn cwblhau ystod ddefnyddiol o weithgareddau monitro. Er enghraifft, maent yn cyfarfod â disgyblion i drafod a dadansoddi data ynghylch y defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth reolaidd am berfformiad yr ysgol i'r corff llywodraethol. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gadarn a chyfredol am gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i herio arweinwyr ynghylch safonau, cynnydd a lles y disgyblion. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer monitro’r ddarpariaeth a chefnogi cynllunio gwelliant. Maent, yn ogystal â staff a disgyblion, yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn briodol i werthuso’r ddarpariaeth a’i heffaith ar safonau, cynnydd a lles disgyblion. Maent yn dadansoddi’r dystiolaeth yn bwrpasol ac, o ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a beth sydd angen ei wella. Maent yn llunio cynlluniau gwella effeithiol sy’n canolbwyntio’n glir ar y meysydd sydd angen eu datblygu ynghyd â rhoi sylw i flaenoriaethau gwella cenedlaethol. Er enghraifft, drwy hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd ac yn addasu eu cynlluniau, lle bo’n briodol.

Rhoddir pwyslais amlwg gan arweinwyr ar adeiladu partneriaethau effeithiol â rhieni a’r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae’r ysgol yn gwahodd rhieni i’r ysgol i loywi eu medrau siarad Cymraeg dros gyfres o sesiynau defnyddiol. Mae hyn yn hybu gallu’r rhieni i gefnogi eu plant adref yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi datblygu ystod dda o bartneriaethau â’r gymuned leol. Er enghraifft, mae’r llyfrgell a busnesau lleol yn cefnogi’r ysgol i gynnal helfa drysor ble mae disgyblion yn ceisio dod hyd i’r carped hud sydd wedi mynd ar goll yng nghyffiniau Bae Colwyn. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o wasanaethau lleol ynghyd â’u galluogi i hybu’r defnydd o Gymraeg gyda thrigolion y dref wrth fynd o gwmpas eu gwaith. Mae hon yn nodwedd gref o waith yr ysgol sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024